

## Statws RAG

■ **Coch:** Tu ôl i'r targed ■ **Melyn:** Bron â chyrraedd y targed ■ **Gwyrdd:** Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed



## Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth ■

Allbynnau allweddol yn ystod y chwarter:

Cyhoeddwyd 5 erthygl dechnegol:

- NWY Tŷ GWYDR BYCHAN OND MARWOL: SUT I LEIHU ALLYRIADAU METHAN O DDA BYW
- LLUNIO PROFFILIAU METABOLIG O FAMOGIAID I WELLA EFFEITHIOLRWYDD A CHYNYHRCHU
- AR RADAR Y FFERMWR: Y 10 PRIF DUEDD DECHNOLEGOL I AMAETHYDDIAETH
- DEFNYDDIO TECHNOLEG DELWEDDU THERMOL I WELLA GWAITH CYNHYRCHU DA BYW
- LLUNIO PROFFILIAU METABOLIG O FUCHOD GODRO I WELLA EFFEITHIOLRWYDD A CHYNYDDU CYNHYRCHIAN

Cyhoeddwyd 5 taflen wybodaeth:

- GWEDDILLION TREULIAD ANAEROBIG O LASWELLT
- RHEOLI RHEDYN
- MAETHY FAMOG YN YSTOD BEICHOGRWYDD
- GWAHANU SLYRI
- RHEOLI TAFOL

## Partneriaeth Arloesi Ewrop ■



Prosiect EIP Wales Targed 2022	45
Prosiectau yn y broses ymgeisio	20
Prosiectau wedi'u cymeradwyo	20



## Prosiectau newydd a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod hwn:

### Rheoli defaid godro i gynhyrchu canlyniad gwell ar gyfer cynhyrchu caws

O'i gymharu â'r sector gwartheg godro confensiynol yng Nghymru, mae prinder dealltwriaeth ynglŷn â pha ffactorau sy'n gallu rheoli proffil bacteriolegol llaeth dafad. Amcan y prosiect hwn yw ymchwilio sut y gall y tri ffactor isod y mae modd eu rheoli effeithio ar broffil bacteriolegol y llaeth dros ddau dymor. Gweledigaeth y grŵp yw bod ar flaen y sector addawol yma yng Nghymru ac i osod sylfeini cryf lle mae'r system gynhyrchu'n seiliedig ar laeth o safon uchel i'r cwsmer.



## Diweddariad ar brosiectau presennol:

### Rheolaeth lefel uwch ar faethiad defaid

"Mae'r canlyniadau, cyn belled, yn dangos y gall fod problemau tangyflawni neu or-gyflawni heb eu canfod, ac mae'n bwysig ymchwilio yn drylwyr i gael darlun cyflawn o faethiad cyffredinol y famog, yn arbennig pan ddaw yn fater o elfennau fel copr. Dylai'r dull ymchwiliol hwn ganiatáu i ffermwyr ddeall yn well beth sy'n mynd ymlaen tu mewn i'r famog cyn i unrhyw symptomau clinigol o ran tan-gyflenwi neu or-gyflenwi ategion ddigwydd," dywedodd Dr Joseph Angell o Wern Vets.

Wrth symud ymlaen, bydd y diadelloedd yn awr yn cael dadansoddiad gwaed eto i reoli'r cyflenwad ynni a phrotein yn nes at wyna cyn gwaith dilynol, mwy manwl yn yr haf.


Cliciwch y [sgin deledu](#) i weld y prosiect ar waith.



### Systemau porthiant amgen ar gyfer tir ymylol

Mae'r tair fferm sy'n rhan o'r prosiect EIP Cymru hwn wedi canolbwyntio ar sefydliad yr ail-hadu yn 2018, yn ystod blwyddyn a fu'n heriol iawn o ran tyfiant cynydu. Er hyn, roedd perfformiad y gwndwn llysieuol yn dda gyda chynnyrch o 67kg/DM/ha ar un o'r ffermydd ym mis Medi. Wrth sganio, nododd un fferm fod y mamogiaid oedd wedi pori'r gwndwn llysieuol wedi sganio yn 162%, o'i gymharu â 141% ar gyfer mamogiaid oedd wedi pori oddi ar borfa/meillion. Roedd chwyn yn broblem mewn rhai darnau tir ar y tair fferm a rhoddwyd cyngor ar sut i reoli chwyn trwy reolaeth dda.

### Teithiau Astudio ■



Cynhaliwyd 1 taith astudio yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mis Ionawr teithiodd grŵp o ffermwyr ifanc o Sir Drefaldwyn i Belfast i edrych ar arferion ffermio yng Ngogledd Iwerddon a chlywed barn ffermwyr blaengar oedd yn fodlon rhannu eu profiadau o fewn y diwydiant.

Bu'r grŵp yn ymweld nifer o ffermwyr a sefydliadau blaengar yn cynnwys:

**Dale Farm** – un o gwmnïau llaeth mwyaf blaengar Gogledd Iwerddon sy'n eiddo i fenter gydweithredol o 1,300 o ffermwyr llaeth

**College of Agriculture, Food and Rural Enterprise** – coleg ar gyfer unigolion sy'n awyddus i ddechrau gyrfa neu'n gweithio yn y diwydiant bwyd-amaeth

**Matthew Brownlee** – Ffermwr Cymysg y Flwyddyn y Farmers Weekly 2018/19

**Gary Fitzpatrick & John Toland** – ffermwyr sy'n magu lloi yn County Antrim

Cafodd yr aelodau wybodaeth mewn amrywiaeth o bynciau; o strwythur a gweithrediadau busnes i systemau trin anifeiliaid ac awyru, a bydd y cyfan o fudd i'w busnesau adref.

Cliciwch [yma](#) i ddarllen mwy am eu taith.